

Arweiniad ar Goelcerthi

Mae'n gred gyffredin fod is-ddeddfau sy'n rheoleiddio coelcerthi mewn grym mewn gwahanol rannau o'r wlad, ac mai dim ond ar ôl iddi dywyllu y gellir cynnau coelcerth.

Nid oes unrhyw is-ddeddf sy'n rheoleiddio coelcerthi. Er gwaethaf hynny, mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir (GRhR) yn argymhell peidio â chynnau coelcerthi mewn ardaloedd poblog.

Mae dewisiadau amgen i losgi, a nodwch fod llosgi gwastraff gan gwmnïau masnachol yn anghyfreithlon yn y rhan fwyaf o achosion.

Weithiau, gall y mwg gael ei ystyried yn niwsans statudol, a gall GRhR ddefnyddio'i bwerau o dan y Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd i gyflwyno Hysbysiad Cyfreithlon a fydd yn gofyn am weithredu i arbed y niwsans rhag digwydd eto.

Pan fyddwch yn cael coelcerth yn yr ardd, dylech ystyried pa ddulliau eraill sy'n ymarferol i gael gwared â'r gwastraff. Pryd bynnag mae'n bosib, defnyddiwch y dewis gorau i'r amgylchedd, er enghraifft, y gwasanaeth casglu gwastraff yr ardd, compostion gartref a chanolfannau ailgylchu.

Sut galla i ddelio â choelcerth sy'n niwsans?

Mae coelcerthi'n achosi llygredd i'r aer, ac mae'r mwg yn cynnwys y nwyon gwenwynig carbon monocsid a chyfansoddiadau niweidiol ac annymunol. Ar eu lleiaf peryglus, gallan nhw fod yn niwsans i'r cymdogion, ond ar ben hynny, gallan nhw waethygu asthma, llid ar y frest neu broblemau â'r galon.

O dan Adran 80 y Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990, gall coelcerth fyglyd arwain at weithredu statudol gan eich Awdurdod Lleol os bydd yn ystyried bod y mwg yn ddigonol i gael ei ddyfarnu'n niwsans. Gallai'r Awdurdod gyflwyno Hysbysiad Atal Sŵn hyd yn oed os ydy'r niwsans wedi stopio os ydy hi'n debygol o godi eto.

Ceisiwch osgoi cael gwared â sbwriel gardd drwy ei losgi. Mae'ch Cyngor yn fodlon casglu sbwriel gardd gyda'ch casgliad sbwriel arferol.

Os oes angen i chi gael coelcerth ynn yr ardd, dylech ddilyn yr arferion da isod er mwyn ceisio arbed achosi niwsans.

- Sychwch sbwriel gardd yn drylwyr cyn ei losgi
- Tân cyflym, poeth fydd yn cynhyrchu'r lleiaf o fwg
- Peidiwch â chynnau tân o fewn awr i'r machlud na gadael un ynghyn yn hwyrach nag awr ar ôl y machlud, pan all amodau'r tywydd beri i fwg hongian yn yr awyr

- Peidiwch byth â gadael tân heb ei oruchwylio, na gadael i dân fudlosgi. Trochwch e â phridd neu ddŵr
- Peidiwch byth ag ychwanegu sbwriel y cartref at goelcerth yn yr ardd
- Yn bwysicaf oll, cofiwch am eich cymdogion. Rhowch wybod iddyn nhw os ydych chi'n bwriadu cynnau coelcerth yn yr ardd er mwyn iddyn nhw baratoi drwy gau ffenestri a thynnu dillad oddi ar y lein.
- Osgoi galwadau diangen i'r Gwasanaeth Tân.

Niwsans mwg masnachol a diwydiannol

Mae cwynion o'r math hwn fel arfer yn berthnasol i fwg sy'n tarddu o losgi gwastraff ar safleoedd diwydiannol neu fasnachol neu o safleoedd adeiladu.

Pan fydd mwg sy'n codi o'r fath safle'n cael ei ystyried yn niwsans statudol, h.y. yn niweidiol i iechyd neu'n amharu ar ddefnydd neu fwynhad safle cyfagos, bydd hysbysiad diddymiad yn cael ei gyflwyno gan Gyngor Sir Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr yn unol ag Adran 80 y Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990. Bydd yr Hysbysiad Diddymiad yn cael ei gyflwyno i'r sawl sy'n gyfrifol am y safle, neu'r perchennog neu'r tenant, yn gofyn bod y niwsans yn cael ei ddiddymu. Mae methu â chydymffurfio â'r Hysbysiad Diddymiad yn drosedd, a gallai arwain at ddechrau erlyniad cyfreithiol.

Mwg du neu dywyll

O dan Adran 2 Deddf Awyr Glân 1993, mae'n drosedd atebolrwydd lem allyrru mwg du neu dywyll o safleoedd diwydiannol neu fasnachol.

O dan Adran 1 y Ddeddf, mae'n drosedd allyrru mwg du neu dywyll o simnai ar unrhyw safle diwydiannol neu fasnachol. Fodd bynnag, caniateir maint cyfyngedig o'r fath allyriadau, er enghraifft, wrth danio boiler pan fo'n oer.

O dan Adran 33 y Ddeddf, mae'n drosedd absoliwt llosgi'r haen allanol oddi ar gebl i dynnu'r craidd metal.